
**Tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau
blaenorol a thystiolaeth o gefnogaeth
bresennol cyn y gwahanol etholiadau a
gynhelir ar 5 Mai 2022**

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol	4
3. Tystiolaeth o gefnogaeth bresennol	13

1. Trosolwg

Ar 5 Mai 2022 cynhelir: etholiadau ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon; etholiadau lleol (ac etholiadau maer)¹ mewn rhai rhannau o Loegr; ac etholiadau lleol yng Nghymru a'r Alban. Er mwyn helpu darlledwyr i wneud penderfyniadau golygyddol yn ystod ymgyrchoedd etholiadol, rydym yn cyhoeddi crynodeb o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol (hynny yw, canlyniadau etholiadau) a thystiolaeth o gefnogaeth bresennol (ar ffurf polau piniwn). Mae'r crynodeb hwn hefyd yn nodi'r ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhaglenni sy'n gysylltiedig ag etholiadau, gan gynnwys rhoi mwy o bwysau ar dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol na thystiolaeth o gefnogaeth bresennol (ee polau piniwn).

Beth rydym yn ei gynnwys yn y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn fersiwn wedi'i diweddarau o'r crynodebau o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a'r gefnogaeth bresennol a gyhoeddwyd gennym cyn yr amrywiol etholiadau ym mis Mai a mis Mehefin 2017, Mai 2018, Mai a Rhagfyr 2019 a Mai 2021.²

Mae'r crynodeb hwn yn darparu amrywiaeth o wybodaeth i helpu darlledwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau golygyddol am sylw i etholiadau yn ystod cyfnod yr etholiad³ o dan [Adran Chwech y Cod Darlledu](#) ("y Cod"); a phenderfyniadau ynghylch dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau o dan reolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda ("[y Rheolau PPRB](#)"). Fodd bynnag, nid yw'r crynodeb hwn yn ceisio bod yn gasgliad cynhwysfawr o'r holl dystiolaeth etholiadol sy'n berthnasol ar hyn o bryd. Dylai darlledwyr hefyd ystyried gwybodaeth berthnasol arall wrth wneud penderfyniadau ynghylch etholiadau. Er enghraifft, dylai darlledwyr ystyried cefnogaeth berthnasol mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol i bleidiau ac ymgeiswyr mewn etholaethau ac ardaloedd etholiadol penodol, wrth wneud penderfyniadau golygyddol ynghylch darlledu cystadlaethau etholiadol yn yr ardaloedd daearyddol hynny.

- 1.1 Ers 9 Mawrth 2017,⁴ mae Ofcom wedi mynnu bod darlledwyr yn gwneud penderfyniadau golygyddol sy'n ymwneud ag etholiadau, penderfyniadau ynghylch dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau, a darllediadau gwleidyddol gan bleidiau drwy gyfeirio at

¹ Mae hyn yn cynnwys un etholiad maer metropolitan yn Ne Swydd Efrog, a chwe etholiad maer awdurdod lleol yn: Croydon; Hackney; Lewisham; Newham; Tower Hamlets; a Watford.

² Cafodd yr etholiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai 2020 eu gohirio tan fis Mai 2021 oherwydd pandemig y coronafeirws.

³ Mewn perthynas â'r gwahanol etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022, bydd y rheolau yn Adran Chwech Cod Darlledu Ofcom yn berthnasol pan fydd y "cyfnod etholiad" yn dechrau. Bydd dyddiad/au dechrau cyfnod yr etholiad yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cadarnhau mewn Nodyn i Ddarlledwyr, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022 ym Mwletin Broadcast and On Demand Ofcom.

⁴ Ar y dyddiad hwn, cyhoeddodd Ofcom [Ddatganiad yn diwygio ei reolau yng nghyswllt didueddrwydd dyladwy](#), cywirdeb dyladwy, etholiadau a refferenda ("y Datganiad"). Yn y Datganiad, nodwyd ein penderfyniad i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy o Adran Chwech y Cod a'r Rheolau PPRB a disodli hynny â gofyniad ar ddarlledwyr i wneud penderfyniadau golygyddol sy'n ymwneud ag etholiadau, penderfyniadau ynghylch dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau, a darllediadau pleidiau gwleidyddol drwy gyfeirio at dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol.

dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Er mwyn helpu darlledwyr, rydym wedi cyhoeddi crynodeb o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol (h.y. canlyniadau etholiadau) a thystiolaeth o gefnogaeth bresennol (ar ffurf polau piniwn) cyn yr amrywiol etholiadau a gynhaliwyd yn y DU ers 9 Mawrth 2017.⁵

1.2 Rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol nodi rhai o'r ffactorau y mae Ofcom yn eu hystyried wrth bwysu a mesur gwahanol fathau o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch gorfodi Adran 6 ein Cod ym maes etholiadau. Mae'r ffactorau hyn yn adlewyrchu'r dull rydym wedi'i ddefnyddio ar gyfer cwynion ers mis Mawrth 2017:

- rydym yn rhoi mwy o bwys ar berfformiad go iawn plaid wleidyddol mewn etholiadau na data pôl piniwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod perfformiad etholiadol yn fesur o sut mae pleidleiswyr wedi gwneud eu dewis democrataidd. Mae hyn yn cymharu â'r ansicrwydd mwy sydd ynghlwm wrth gefnogaeth mewn polau piniwn, nad yw o reidrwydd yn arwain at bleidleisiau go iawn neu at seddi mewn etholiad;
- wrth ystyried cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol, rydym yn ystyried ffactorau fel perfformiad etholiadol pleidiau (gan gynnwys nifer yr ymgeiswyr a gafodd eu hethol a chanran cyffredinol y bleidlais a gafwyd) mewn etholiadau cyfatebol blaenorol dros o leiaf ddau gylch etholiadol;
- rydym hefyd yn ystyried perfformiad mewn etholiadau perthnasol eraill yn y gorffennol sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd, yn ogystal â pherfformiad mewn etholiadau diweddar eraill;
- rydym yn ystyried perfformiad etholiadol pleidiau dros o leiaf ddau gylch etholiadol wrth ystyried perfformiad mewn unrhyw fath o etholiad. Fodd bynnag, rydym yn rhoi llai o bwys ar dystiolaeth o berfformiad etholiadol sy'n fwy na dau gylch etholiadol yn ôl o ystyried natur hanesyddol y dystiolaeth hon;
- lle bo'n berthnasol, rydym yn ystyried tystiolaeth mewn perthynas â pherfformiad etholiadol yng ngwledydd gwahanol y DU;
- wrth roi llai o bwys ar gefnogaeth bresennol o'i chymharu â pherfformiad go iawn, rydym yn rhoi pwys ar dystiolaeth o gefnogaeth bresennol sy'n wrthrychol ac yn fesuradwy. Un math o dystiolaeth wrthrychol a mesuradwy o gefnogaeth bresennol yw data pôl piniwn, pan fydd ar gael. Efallai fod mathau eraill o dystiolaeth o gefnogaeth bresennol ond wrth ystyried tystiolaeth o'r fath, byddem yn ystyried cysondeb a gwrthrychedd pob math o dystiolaeth; ac

⁵ Yn benodol: yr amrywiol etholiadau a gynhaliwyd ar 4 Mai 2017; yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017; yr amrywiol etholiadau a gynhaliwyd ar 3 Mai 2018; yr amrywiol etholiadau a gynhaliwyd ar 2 Mai 2019; yr etholiadau Senedd Ewrop a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019; yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019 a'r gwahanol etholiadau a gynhaliwyd ar 6 Mai 2021.

- ein bwriad bob tro yw cynnal asesiad cytbwys gan ystyried y dystiolaeth berthnasol yn ei chyfanrwydd.
- 1.3 Yn Adran Dau, rydym yn cyflwyno tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol ar ffurf canlyniadau etholiadau blaenorol, sy'n cynnwys perfformiad (dros ddau gylch etholiadol), pleidiau gwleidyddol ar draws gwledydd y DU yn: Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon, etholiadau lleol Lloegr a, phan fo'n berthnasol, etholiadau maer; etholiadau lleol yr Alban, etholiadau lleol Cymru; ac etholiadau arwyddocaol eraill nad ydynt yn cael eu cynnal ar 5 Mai 2022.
- 1.4 Os bydd etholiadau'n cael eu cynnal yn nes ymlaen yn y flwyddyn, mae'n agored i ddarllledwyr gyfeirio at y crynodeb hwn i'w helpu i lunio eu penderfyniadau. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i ddarllledwyr asesu unrhyw dystiolaeth fwy diweddar hefyd a allai fod yn berthnasol.
- 1.5 Yn Adran Tri rydym yn nodi tystiolaeth o gefnogaeth bresennol i'r pleidiau gwleidyddol ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ffurf data polau piniwn ers yr amrywiol etholiadau a gynhaliwyd ar 6 Mai 2021.

Canllawiau ar y Rheolau PPRB ar amserlennu

- 1.6 Mae Rheolau 25 a 26 ein Rheolau ar ddarlllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda yn nodi'r gofynion amserlennu ar gyfer darlllediadau etholiadol gan bleidiau a darlllediadau pleidiau gwleidyddol.⁶ Rydym yn disgwyl i ddarllledwyr wneud penderfyniadau amserlennu mewn ffordd deg a chyson gan ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol. Byddwn felly'n disgwyl i ddarllledwyr barhau i ddyrannu darlllediadau etholiadol gan bleidiau a darlllediadau pleidiau gwleidyddol i bleidiau sydd â mwy o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a mwy o gefnogaeth bresennol ar adegau sy'n debygol o ddenu niferoedd uwch yn hytrach nag is o wylwyr a gwrandawyr. Byddwn hefyd yn disgwyl i ddarllledwyr sicrhau bod pleidiau gwahanol yn cael darlllediadau etholiadau gan bleidiau a darlllediadau pleidiau gwleidyddol ar adegau gwahanol yn yr amserlen, er mwyn sicrhau bod negeseuon pleidiau gwahanol yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl. Yn benodol, petai darllledwr yn dyrannu darlllediadau etholiadol gan bleidiau a darlllediadau pleidiau gwleidyddol yn gyson i blaid benodol ar adegau sy'n denu'r cynulleidfaoedd isaf, byddem yn gweld hyn fel rhywbeth a allai beri problemau o ran gallu'r darllledwr hwnnw i sicrhau didueddrwydd dyladwy yn ystod cyfnod etholiad, a byddem yn cymryd camau yn unol â hynny.

⁶ Mae rheol 25 yn datgan: "Rhaid i ddarlllediadau etholiadol gan bleidiau, darlllediadau pleidiau gwleidyddol a darlllediadau ymgyrchoedd refferendwm gael eu darlledu rhwng 5.30pm a 11.30pm". Mae Rheol 26 yn datgan: "Rhaid i ddarlllediadau etholiadol gan bleidiau a darlllediadau ymgyrchoedd refferendwm ar y radio gael eu darlledu rhwng 6.00am a 10.00pm".

2. Tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol

Canlyniadau blaenorol yr etholiadau a gynhelir yn 2022

Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon

2.1 Mae Ffigur 1 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Ffigur 1: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2016 a 2017

	DUP	Sinn Fein	SDLP	UUP	Alliance	TUV	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2016	38 29.2%	28 24.0%	12 12.0%	16 12.6%	8 7.0%	1 3.4%	0 1.5%	2 2.7%	3 7.8%
2017	28 28.1%	27 27.9%	12 11.9%	10 12.9%	8 9.1%	1 2.6%	Amh	2 2.3%	2 5.4%

Ffynhonnell: BBC

Etholiadau Lleol Lloegr

2.2 Mae Ffigur 2 yn nodi'r ffigurau a gasglwyd gan y Ganolfan Etholiadau, Prifysgol Plymouth, o nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol ar gyfer etholiadau lleol yn Lloegr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys: y ddau gylch diwethaf o etholiadau lleol Lloegr o ran blynyddoedd dilyniantol (2019 a 2021);⁷ a'r ddau etholiad diwethaf lle cafodd y seddi a oedd yn cael eu hymladd ym mis Mai 2022 eu hymladd ddiwethaf (2014 a 2018).

Ffigur 2: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau lleol Lloegr 2013 i 2021

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2013	1,117 34.6%	538 21.2%	352 13.9%	147 19.9%	22 3.6%	186 6.8%

⁷ Cafodd yr etholiadau a oedd i fod i gael eu cynnal ym mis Mai 2020 eu gohirio tan fis Mai 2021 oherwydd pandemig y coronafeirws.

Tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol cyn y gwahanol etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022

2014	2,124 25.9%	1,366 35.8%	429 11.1%	163 15.7%	38 6.6%	146 5.1%
2015	5,540 35.8%	2,292 28.4%	661 10.3%	201 12.8%	84 6.5%	562 6.2%
2016	841 27.0%	1,325 38.9%	380 12.8%	59 10.9%	45 6.0%	120 4.6%
2017	1,439 46.6%	417 20.0%	315 18.0%	1 4.7%	20 4.4%	178 6.4%
2018	1,331 31.8%	2,352 41.2%	539 14.0%	3 1.3%	40 6.7%	146 5.1%
2019	3,559 31.4%	2,020 26.6%	1,351 16.9%	34 4.5%	263 9.2%	1,198 11.4%
2021	2,337 40.5%	1,346 27.0%	588 15.3%	0 0.1%	152 9.1%	307 7.9%

Ffynhonnell: Y Ganolfan Etholiadau, Prifysgol Plymouth

Etholiadau maer Lloegr

- 2.3 Bydd etholiadau maer yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022 yn Lloegr ar gyfer Croydon, Hackney, Lewisham, Newham, De Swydd Efrog, Tower Hamlets a Watford.
- 2.4 Mae Ffigur 3 yn nodi'r blaid fuddugol a chyfran y bleidlais dewis cyntaf a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o'r etholiadau maer sy'n cael eu hymyladd.⁸ Gan fod maeroliaeth De Swydd Efrog wedi cael ei chreu yn 2018, dim ond un canlyniad etholiad blaenorol sydd ar gael. Mai 2022 fydd yr etholiad maer cyntaf yn Croydon, felly nid oes unrhyw ganlyniadau blaenorol ar gael.

Ffigur 3: Nifer y maeryddiaethau a chyfran y bleidlais mewn etholiadau maer yn 2014 a 2018

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
Hackney						
2016⁹	0 11.0%	1 69.0%	0 6.0%	Amh	0 13.0%	0 2.0%
2018	0 11.1%	1 65.9%	0 7.5%	Amh	0 10.5%	0 5.0%
Lewisham						
2014	0 11.1%	1 50.8%	0 10.0%	0 7.9%	0 10.0%	0 10.2%

⁸ Cynhaliwyd is-etholiadau yn Hackney yn 2016 a Tower Hamlets yn 2015 felly rydym wedi cynnwys y canlyniadau hyn yn hytrach na rhai o etholiadau maerol 2014.

⁹ Canlyniad is-etholiad oedd hyn.

Tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol cyn y gwahanol etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022

2018	0 13.3%	1 54.3%	0 8.2%	Amh	0 10.4%	0 13.8%
Newham						
2014	0 18.0%	1 61.0%	0 2.0%	0 6.0%	0 4.0%	0 8.0%
2018	0 12.0%	1 73.0%	0 9.0%	Amh	Amh	0 6.0%
De Swydd Efrog						
2018	0 14.8%	1 48.0%	0 10.6%	Amh	0 8.0%	0 18.7%
Tower Hamlets						
2015¹⁰	0 8.7%	1 40.0%	0 3.1%	0 2.5%	0 3.9%	0 41.7%
2018	0 7.9%	1 48.4%	0 7.2%	Amh	0 4.3%	0 31.2%
Watford						
2014	0 13.6%	0 25.7%	1 45.9%	0 14.8%	Amh	Amh
2018	0 17.5%	0 33.8%	1 48.7%	Amh	Amh	Amh

Ffynhonnell: Gwefannau awdurdodau lleol

Etholiadau lleol Cymru

2.5 Mae Ffigur 4 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau lleol yng Nghymru.

Ffigur 4: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau lleol Cymru yn 2012 a 2017

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	Plaid Cymru	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2012	104 12.7%	577 35.6%	72 8.0%	158 15.7%	2 0.3%	0 1.2%	311 26.5%
2017	184 18.8%	468 34.4%	63 6.8%	208 16.5%	0 1.1%	1 1.3%	330 25.0%

Ffynhonnell: BBC a'r Ganolfan Etholiadau, Prifysgol Plymouth

¹⁰ Canlyniad is-etholiad oedd hyn.

Etholiadau lleol yr Alban

2.6 Mae Ffigur 5 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau lleol yr Alban.

Ffigur 5: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau lleol yr Alban yn 2012 a 2017

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	SNP	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2012	115 13.3%	394 31.4%	71 6.6%	425 32.3%	0 0.3%	14 2.3%	204 13.8%
2017	276 25.3%	262 20.2%	67 6.9%	431 32.3%	0 0.2%	19 4.1%	172 11.0%

Ffynhonnell: y BBC a'r Comisiwn Etholiadol

Canlyniadau blaenorol etholiadau arwyddocaol eraill nad ydynt yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022

2.7 Mae Ffigurau 6 i 15 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol mewn amrywiaeth o etholiadau arwyddocaol eraill nad ydynt yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022.

Etholiadau Cyffredinol y DU

2.8 Mae Ffigur 6 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol ar gyfer y ddau Etholiad Cyffredinol diwethaf yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Ffigur 6: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais mewn Etholiadau Cyffredinol yn 2017 a 2019 (Cymru, Lloegr a'r Alban)

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	SNP	Plaid Cymru	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2017								
Lloegr	296 45.4%	227 41.9%	8 7.8%	Amh	Amh	0 2.1%	1 1.9%	1 0.9%
Cymru	8 33.6%	28 48.9%	0 4.5%	Amh	4 10.4%	0 2.0%	0 0.3%	0 0.2%
Yr Alban	13 28.6%	7 27.1%	4 6.8%	35 36.9%	Amh	0 0.2%	0 0.2%	0 0.3%

2019								
Lloegr	345 47.2%	179 33.9%	7 12.4%	Amh	Amh	0 0.1%	1 3.0%	1 0.9%
Cymru	14 36.1%	22 40.9%	0 6.0%	Amh	4 9.9%	Amh	0 1.0%	0 0.6%
Yr Alban	6 25.1%	1 18.6%	4 9.5%	48 45.0%	Amh	0 0.1%	0 1.0%	0 0.3%

Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin a'r BBC

2.9 Mae Ffigur 7 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol ar gyfer y ddau Etholiad Cyffredinol diwethaf yng Ngogledd Iwerddon.

Ffigur 7: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais mewn Etholiadau Cyffredinol yn 2017 a 2019 (Gogledd Iwerddon)

	DUP	Sinn Fein	SDLP	UUP	Alliance	TUV	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2017	10 36.0%	7 29.4%	0 11.7%	0 10.3%	0 7.9%	0 0.4%	Amh	0 0.9%	1 3.2%
2019	8 30.6%	7 22.8%	2 14.9%	0 11.7%	1 16.8%	Amh	Amh	0 0.2%	0 3.4%

Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin a'r BBC

Etholiadau Senedd Ewrop

2.10 Mae Ffigur 8 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau Senedd Ewrop yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Ffigur 8: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau Senedd Ewrop 2014 a 2019 – Cymru, Lloegr a'r Alban

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	SNP	Plaid Cymru	Brexit	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2014									
Lloegr	17 24.9%	17 25.2%	1 7.0%	Amh	Amh	Amh	22 29.2%	3 8.0%	0 4.5%
Cymru	1 17.4%	1 28.1%	0 3.9%	Amh	1 15.3%	Amh	1 27.6%	0 4.5%	0 2.1%

Tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol cyn y gwahanol etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022

Yr Alban	1 17.2%	2 25.9%	0 7.1%	2 29.0%	Amh	Amh	1 10.5%	0 8.1%	0 1.5%
Prydain Fawr	19 23.9%	20 25.4%	1 6.9%	2 2.5%	1 0.7%	Amh	24 27.5%	3 7.9%	0 5.2%
2019									
Lloegr	3 9.0%	9 14.6%	15 21.3%	Amh	Amh	26 33.4%	0 3.5%	7 12.9%	0 5.4%
Cymru	0 6.5%	1 15.3%	0 13.6%	Amh	1 19.6%	2 32.5%	0 3.3%	0 6.3%	0 2.9%
Yr Alban	1 11.6%	0 9.3%	1 13.9%	3 37.8%	Amh	1 14.8%	0 1.8%	0 8.2%	0 2.4%
Prydain Fawr	4 9.1%	10 14.1%	16 20.3%	3 3.6%	1 1.0%	29 31.6%	0 3.3%	7 12.1%	0 5.0%

Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin a'r BBC

2.11 Mae Ffigur 9 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol ar gyfer y ddau gylch diwethaf o etholiadau Senedd Ewrop yng Ngogledd Iwerddon.

Ffigur 9: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau Senedd Ewrop 2009 a 2014 – Gogledd Iwerddon

	DUP	Sinn Fein	SDLP	UUP	Alliance	TUV	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2014	1 20.9%	1 25.5%	0 13.0%	1 13.3%	0 7.1%	0 12.1%	0 1.7%	0 3.9%	0 2.5%
2019	1 21.8%	1 22.2%	0 13.7%	0 9.3%	1 18.5%	0 10.8%	0 0.9%	0 2.2%	0 0.6%

Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin a'r BBC

Etholiadau maer Llundain

2.12 Mae Ffigur 10 yn nodi'r blaid fuddugol a chyfran y bleidlais dewis cyntaf a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau maer Llundain.

Ffigur 10: Cyfran y bleidlais yn etholiadau maer Llundain yn 2016 a 2021

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2016	0 35.0%	1 44.2%	0 4.6%	0 3.6%	0 5.8%	0 6.6%
2021	0 35.3%	1 40.0%	0 4.4%	0 0.6%	0 7.8%	0 11.9%

Ffynhonnell: BBC

Etholiadau Cynulliad Llundain

2.13 Mae Ffigur 11 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau Cynulliad Llundain.

Ffigur 11: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau Cynulliad Llundain yn 2016 a 2021

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2016						
Etholwyd yn uniongyrchol	5 31.1%	9 43.5%	0 7.5%	0 7.6%	0 9.1%	0 1.2%
Rhestr ranbarthol	3 29.2%	3 40.3%	1 6.3%	2 6.5%	2 8.0%	0 9.6%
2021						
Etholwyd yn uniongyrchol	5 32.0%	9 41.7%	0 10.3%	Amh	0 13.0%	0 3.0%
Rhestr ranbarthol	4 30.7%	2 38.1%	2 7.3%	0 1.1%	3 11.8%	0 11.0%

Ffynhonnell: Gwefan y BBC a London Elects

Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

2.14 Mae Ffigur 12 yn nodi nifer y swyddi Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Ffigur 12: Nifer y swyddi Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a chyfran y bleidlais yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn 2016 a 2021

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	Plaid Cymru	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2016							
Lloegr	20 30.2%	13 34.3%	0 9.1%	Amh	0 14.8%	0 1.4%	3 7.8%
Cymru	0 21.9%	2 34.1%	0 4.7%	2 23.7%	0 4.9%	Amh	0 10.7%
2021							
Lloegr	30 45.2%	5 30.0%	0 14.3%	Amh	Amh	0 2.6%	0 7.9%
Cymru	0 28.4%	3 35.1%	0 5.2%	1 23.5%	Amh	Amh	0 7.8%

Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

Etholiadau Senedd Cymru

2.15 Mae Ffigur 13 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau Senedd Cymru.

Ffigur 13: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau Senedd Cymru yn 2016 a 2021

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	Plaid Cymru	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2016							
Etholwyd yn uniongyrchol	5 21.1%	27 34.7%	1 7.7%	6 20.5%	0 12.5%	0 2.5%	0 1.0%
Rhestr ranbarthol	11 18.8%	2 31.5%	0 6.5%	6 20.8%	7 13.0%	0 3.0%	0 6.5%
2021							
Etholwyd yn uniongyrchol	8 26.1%	27 39.9%	0 4.9%	5 20.3%	0 0.8%	0 1.6%	0 6.4%
Rhestr ranbarthol	8 25.1%	3 36.2%	1 4.3%	8 20.7%	0 1.6%	0 4.4%	0 7.7%

Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin a'r BBC

Etholiadau Senedd yr Alban

2.16 Mae Ffigur 14 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau Senedd yr Alban.

Ffigur 14: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau Senedd yr Alban yn 2016 a 2021

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	SNP	UKIP	Werdd yr Alban	Eraill/Ann.
2016							
Etholwyd yn uniongyrchol	7 22.0%	3 22.6%	4 7.8%	59 46.5%	Amh	0 0.6%	0 0.5%
Rhestr ranbarthol	24 22.9%	21 19.1%	1 5.2%	4 41.7%	0 2.0%	6 6.6%	0 2.5%
2021							
Etholwyd yn uniongyrchol	5 21.9%	2 21.6%	4 6.9%	62 47.7%	0 0.0%	0 1.3%	0 0.6%
Rhestr ranbarthol	26 23.5%	20 17.9%	0 5.1%	2 40.3%	0 0.1%	8 8.1%	0 5.0%

Ffynhonnell: y BBC a'r Comisiwn Etholiadol

Etholiadau Lleol Gogledd Iwerddon

2.17 Mae Ffigur 15 yn nodi nifer y seddi a enillwyd a chyfran y bleidlais boblogaidd a gafwyd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod y ddau gylch diwethaf o etholiadau Lleol Gogledd Iwerddon.

Ffigur 15: Nifer y seddi a chyfran y bleidlais yn etholiadau lleol Gogledd Iwerddon yn 2014 a 2019

	DUP	Sinn Fein	SDLP	UUP	Alliance	TUV	UKIP	Werdd	Eraill/Ann.
2014	130 23.1%	105 24.1%	66 13.6%	88 16.2%	32 6.7%	13 4.5%	3 1.5%	4 0.9%	21 9.6%
2019	122 24.1%	105 23.2%	59 12.0%	75 14.1%	53 11.5%	6 2.2%	0 0.5%	8 2.1%	34 10.4%

Ffynhonnell: Gwefannau awdurdodau lleol a'r BBC

3. Tystiolaeth o gefnogaeth bresennol

Rydym yn nodi isod dystiolaeth o gefnogaeth bresennol, fel y nodir gan bolau piniwn, yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Lloegr

- 3.1 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ffigurau cyfunol diweddar o bolau piniwn gwahanol sefydliadau pleidleisio sy'n dangos cefnogaeth i bleidiau gwleidyddol Lloegr yn unig. Fodd bynnag, gellir defnyddio polau Prydain gyfan fel procsi ar gyfer mesur lefelau'r gefnogaeth bresennol yn Lloegr yn unig. Un ffynhonnell ar gyfer casglu ffigurau polau piniwn Prydain Fawr yw prosiect yr Arsyllfa Pleidleisio.
- 3.2 Mae prosiect yr Arsyllfa Pleidleisio wedi cynhyrchu amcangyfrifon o'r gefnogaeth bresennol drwy gyfuno'r holl dystiolaeth sydd ar gael i leihau effaith yr amrywiad ar hap a gynhyrchir yn anochel gan bob arolwg unigol.
- 3.3 Mae Ffigur 16 yn nodi data'r Arsyllfa Pleidleisio o wahanol etholiadau ym mis Mai 2021 hyd at ddiwedd mis Ionawr 2022. Mae'r ffigurau hyn yn cael eu cyfrifo ar sail cyfartaledd treigl yr holl bolau dros gyfnod o ddau fis, heb eu haddasu ar gyfer 'house effects', hynny yw amcangyfrif o ragfarnau'r polau unigol.

Ffigur 16: Data pól piniwn yr Arsyllfa Pleidleisio (Prydain Fawr) Mai 2021 - Ionawr 2022

Dyddiad (Wythnos yn dechrau)	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	Werdd
06/05/2021	42.6%	33.4%	8.0%	5.4%
13/05/2021	42.7%	32.3%	8.3%	5.6%
20/05/2021	42.8%	32.6%	8.3%	5.7%
27/05/2021	42.8%	32.9%	8.0%	5.8%
03/06/2021	43.1%	33.2%	7.9%	5.8%
10/06/2021	42.8%	33.2%	8.1%	5.8%
17/06/2021	42.2%	32.8%	8.7%	5.8%
24/06/2021	41.5%	33.0%	8.9%	5.8%
01/07/2021	41.2%	33.3%	8.9%	5.8%
08/07/2021	40.9%	33.5%	9.0%	5.9%
15/07/2021	40.7%	33.8%	9.0%	5.9%
22/07/2021	40.3%	34.4%	9.0%	5.9%

Tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol cyn y gwahanol etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022

29/07/2021	40.0%	34.0%	9.3%	6.0%
05/08/2021	40.1%	34.1%	9.3%	5.9%
12/08/2021	39.8%	34.1%	9.4%	6.0%
19/08/2021	39.5%	34.0%	9.4%	6.0%
26/08/2021	39.3%	33.8%	9.3%	6.1%
02/09/2021	38.8%	34.3%	9.2%	6.2%
09/09/2021	38.2%	35.1%	9.1%	6.3%
16/09/2021	39.1%	34.9%	9.0%	6.3%
23/09/2021	39.3%	34.2%	9.1%	6.2%
30/09/2021	39.1%	34.6%	9.1%	6.2%
07/10/2021	39.0%	34.9%	8.9%	6.3%
14/10/2021	38.5%	35.3%	8.8%	6.3%
21/10/2021	37.9%	35.2%	9.0%	6.4%
28/10/2021	37.7%	35.4%	9.1%	6.4%
04/11/2021	36.5%	36.0%	9.3%	6.3%
11/11/2021	35.4%	36.9%	9.3%	6.3%
18/11/2021	35.7%	37.0%	9.3%	6.3%
25/11/2021	35.6%	36.8%	9.4%	6.3%
02/12/2021	34.1%	37.5%	9.8%	6.2%
09/12/2021	32.0%	38.6%	10.1%	6.2%
16/12/2021	31.3%	38.4%	10.6%	6.1%
23/12/2021	32.1%	38.7%	10.8%	6.0%
30/12/2021	32.3%	38.8%	10.8%	5.9%
06/01/2022	31.4%	39.4%	11.0%	5.8%
13/01/2022	30.8%	40.3%	10.9%	5.9%
20/01/2022	31.7%	40.1%	10.7%	5.9%
27/01/2022	32.0%	39.7%	10.7%	5.9%

Ffynhonnell: Yr Arsyllfa Pleidleisio

Gogledd Iwerddon

3.4 Mae Ofcom yn deall nad oes unrhyw bolau piniwn wedi cael eu cynnal ers mis Mai 2021 mewn perthynas â'r bwriad i bleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol yng Ngogledd Iwerddon yn unig. Mae Ffigur 17 yn nodi lefelau dangosol y gefnogaeth bresennol ar gyfer y gwahanol bleidiau yng Ngogledd Iwerddon, o fis Mai 2021 i fis Chwefror 2022, yn seiliedig ar y bwriad i bleidleisio yn Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Ffigur 17: Dewisiadau pleidleisio yn Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon

	DUP	Sinn Fein	SDLP	UUP	Alliance	TUV	Werdd	Eraill/Ann.
LucidTalk (Mai 2021)	16.0%	25.0%	12.0%	14.0%	16.0%	11.0%	2.0%	4.0%
LucidTalk (Awst 2021)	13.0%	25.0%	13.0%	16.0%	13.0%	14.0%	2.0%	4.0%
Prifysgol Lerpwl (Hydref 2021)	20.6%	23.5%	11.4%	13.0%	17.3%	5.6%	3.9%	4.7%
LucidTalk (Tachwedd 2021)	18.0%	24.0%	12.0%	14.0%	15.0%	11.0%	2.0%	4.0%
LucidTalk (Ionawr 2022)	17.0%	25.0%	11.0%	14.0%	14.0%	12.0%	3.0%	4.0%

Yr Alban

3.5 Mae Ffigur 18 yn dangos lefelau dangosol y gefnogaeth bresennol ar gyfer y gwahanol bleidiau yn yr Alban rhwng mis Mai 2021 a mis Chwefror 2022, yn seiliedig ar y bwriad i bleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol. Mae Ffigur 19 yn dangos lefelau dangosol y gefnogaeth bresennol i'r gwahanol bleidiau yn yr Alban, rhwng mis Mai 2021 a mis Chwefror 2022, yn seiliedig ar y bwriad i bleidleisio yn etholiadau Senedd yr Alban (o ran bwriad pleidleisio ar gyfer ymgeisydd etholaeth uniongyrchol a bwriad pleidleisio ar y rhestr ranbarthol).

Ffigur 18: Dewisiadau pleidleisio yn Etholiadau Cyffredinol y DU

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	SNP	Werdd	Reform UK	Eraill/Ann.
Panelbase (Mehefin 2021)	25.0%	18.0%	6.0%	47.0%	Amh	Amh	4.0%
Opinium (Medi 2021)	21.0%	17.0%	5.0%	51.0%	2.0%	2.0%	1.0%
Panelbase (Medi 2021)	23.0%	19.0%	7.0%	47.0%	Amh	Amh	4.0%
Panelbase (Hydref 2021)	21.0%	21.0%	7.0%	48.0%	Amh	Amh	4.0%
Panelbase (Tachwedd 2021)	21.0%	20.0%	7.0%	48.0%	Amh	Amh	4.0%
YouGov (Tachwedd 2021)	20.0%	18.0%	6.0%	48.0%	3.0%	2.0%	2.0%
Opinium (Rhagfyr 2021)	17.0%	22.0%	7.0%	48.0%	3.0%	Amh	4.0%

Ffigur 19: Dewisiadau pleidleisio yn etholiadau Senedd yr Alban (pleidlais etholaethol a phleidlais ar y rhestr ranbarthol)

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	SNP	Werdd	Alba	Eraill/Ann.
Panelbase (Mehefin 2021)							
Etholwyd yn uniongyrchol	24.0%	19.0%	6.0%	46.0%	3.0%	Amh	2.0%
Rhestr ranbarthol	23.0%	17.0%	6.0%	38.0%	9.0%	Amh	6.0%
Opinium (Medi 2021)							
Etholwyd yn uniongyrchol	21.0%	18.0%	6.0%	51.0%	Amh	Amh	4.0%

Tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol cyn y gwahanol etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022

Rhestr ranbarthol	21.0%	16.0%	5.0%	40.0%	8.0%	0.0%	10.0%
Savanta ComRes							
(Medi 2021)							
Etholwyd yn uniongyrchol	22.0%	20.0%	7.0%	48.0%	Amh	Amh	3.0%
Rhestr ranbarthol	23.0%	18.0%	7.0%	36.0%	13.0%	2.0%	1.0%
Panelbase							
(Medi 2021)							
Etholwyd yn uniongyrchol	22.0%	18.0%	7.0%	46.0%	4.0%	Amh	3.0%
Rhestr ranbarthol	23.0%	18.0%	8.0%	38.0%	9.0%	Amh	4.0%
Savanta ComRes							
(Hydref 2021)							
Etholwyd yn uniongyrchol	20.0%	22.0%	7.0%	48.0%	Amh	Amh	3.0%
Rhestr ranbarthol	22.0%	20.0%	7.0%	38.0%	11.0%	1.0%	1.0%
Panelbase							
(Tachwedd 2021)							
Etholwyd yn uniongyrchol	20.0%	19.0%	8.0%	47.0%	4.0%	Amh	3.0%
Rhestr ranbarthol	21.0%	18.0%	8.0%	41.0%	10.0%	Amh	2.0%
YouGov							
(Tachwedd 2021)							
Etholwyd yn uniongyrchol	21.0%	19.0%	7.0%	48.0%	2.0%	Amh	3.0%
Rhestr ranbarthol	19.0%	19.0%	7.0%	38.0%	11.0%	1.0%	5.0%
Ipsos MORI							
(Tachwedd 2021)							
Etholwyd yn uniongyrchol	19.0%	17.0%	5.0%	52.0%	3.0%	Amh	4.0%
Rhestr ranbarthol	20.0%	15.0%	6.0%	43.0%	12.0%	1.0%	3.0%
Savanta ComRes							
(Ionawr 2022)							

Etholwyd yn uniongyrchol	19.0%	22.0%	8.0%	47.0%	Amh	Amh	4.0%
Rhestr ranbarthol	18.0%	20.0%	9.0%	38.0%	12.0%	2.0%	1.0%

Cymru

3.6 Mae Ofcom yn deall mai dim ond un pŵl piniwn sydd wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r bwriad i bleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru ers mis Mai 2021. Mae Ffigur 20 yn nodi lefelau dangosol y gefnogaeth bresennol i'r gwahanol bleidiau yng Nghymru rhwng mis Mai 2021 a mis Chwefror 2022, yn seiliedig ar y bwriad i bleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol.

Ffigur 20: Dewisiadau pleidleisio yn Etholiadau Cyffredinol y DU

	Ceid	Llaf	Dem. Rhydd.	Plaid Cymru	Reform UK	Werdd	Eraill/Ann.
YouGov (Medi 2021)	31.0%	37.0%	4.0%	15.0%	6.0%	5.0%	2.0%
YouGov (Rhagfyr 2021)	26.0%	41.0%	3.0%	13.0%	7.0%	6.0%	3.0%